# Adroddiad Ymchwiliad Craffu

## O'r Ysbyty i'r Cartref

DRAFFT

**<u>Aelodau'r Ymchwiliad</u>**

Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)
Cynghorydd Elin Walker Jones
Cynghorydd Eryl Jones-Williams
Cynghorydd Linda A. W. Jones
Cynghorydd Ann Williams
Cynghorydd Huw Edwards

**<u>Swyddogion</u>**

| | |
|---|---|
| Darren Griffiths a Janet Roberts | (Swyddogion Arweiniol) |
| Dafydd R Bulman | (Swyddog Cefnogol) |
| Bethan Adams | (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) |
| Lowri Haf Evans | (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) |

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Yr Adroddiad**

1. Crynodeb Gweithredol.
2. Cefndir.
3 Pwrpas yr Ymchwiliad.
4. Methodoleg a phrif weithgaredd yr Ymchwiliad Craffu
5. Canfyddiadau yn unol â Brîff yr Ymchwiliad Craffu.
6. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

**Yr Atodiadau**

Atodiad 1 - Dogfennau Cefndir
Atodiad 2 - Pryderon Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Ysbyty Gwynedd
Atodiad 3 - Sesiwn Ymgysylltu â Defnyddwyr/Cleifion
Atodiad 4 - Sesiynau Tystiolaeth

DRAFFT

## 1. Crynodeb Gweithredol

### Cefndir yr Ymchwiliad

Pryder am drefniadau rhyddhau a throsglwyddo cleifion o'r ysbyty sydd wrth wraidd yr ymchwiliad craffu hwn. Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau bryderon am addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yng Ngwynedd. Sail eu pryderon oedd profiadau fynegwyd gan rai o'u hetholwyr wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty, a hynny heb y gefnogaeth gofal a'r rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol priodol mewn lle i'w galluogi i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned mewn rhai achosion.

### Brîff yr Ymchwiliad

Nod yr ymchwiliad oedd ystyried y materion canlynol:

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.
- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.
- Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd / Gogledd Cymru.
- Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad.

### Argymhellion

Gofynnnir i'r Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Gofal i:

- wirio fod *Discharge Protocol* Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ei adolygu ac yn gyson â threfniadau gweithredol Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn y gymuned

DRAFFT

- ofyn i'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno ar brotocol rhyddhau o'r ysbyty a threfniadau ymarferol i'w weithredu
- adolygu trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhwng y timau hynny sy'n hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty a'r asiantaethau hynny sy'n cynnig cefnogaeth yn y gymuned er mwyn adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth i gleifion gan edrych ar ymarfer dda mewn ardaloedd eraill
- adolygu'r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo 7 diwrnod sydd wedi ei gynnig dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac ystyried unrhyw faterion perthnasol wrth ddatblygu gwasanaeth tebyg o fewn y Prosiect Gofal Canolraddol yn yr un maes
- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y Prosiect Gofal Canolraddol sy'n gyfwerth â gwariant o £1.3 miliwn
- bwyso am welliannau i'r Lolfa Drosglwyddo gan ei gwneud yn ystafell gyfforddus a phwrpasol sy'n cynnwys cyfleusterau newid a symud y toiledau anabl yn agosach at y Lolfa er hwylustod
- ofyn i BIPBC am ddiweddariad ar eu cynlluniau i weithredu 'Mwy na Geiriau'
- ddatblygu ffyrdd o gasglu bodlonrwydd cleifion hŷn ar y gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod ganddynt lais yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach a gwella'r ddarpariaeth

DRAFFT

## 2. Cefndir Yr Ymchwiliad

2.1 Nod unrhyw wasanaeth gofal ac iechyd yw cynnig y gofal iawn, yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Pan fo trosglwyddo claf adref neu i leoliad gofal arall yn cael ei ddal yn ôl, mae'n destun pryder amlwg i'r claf a'i deulu ond mae'n arwydd hefyd nad yw'r trefniadau eu hunain yn gweithio'n iawn er budd y claf na'r sefydliad sy'n eu cynnig.

2.2 Mae'r broses rhyddhau felly yn rhan hanfodol o reoli gofal mewn unrhyw sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sicrhau bod systemau rhagweithiol i gefnogi unigolion, teuluoedd a gofalwyr wrth drefnu rhyddhau neu drosglwyddo i leoliad arall unai ysbyty neu sefydliadau o fewn ein cymunedau yn hanfodol ac yn greiddiol.

2.3 Nid y sawl a gaiff ei drosglwyddo'n unig sy'n ennill pan fo'r trefniadau hynny yn gweithio ond y teulu, gofalwyr a'r sefydliadau hynny sy'n cynnig gofal. Y mae cost gwely yn uchel a'r galw yn drwm ac mae gohirio trosglwyddo yn gost ariannol ychwanegol ar sefydliadau iechyd ac yn ddefnydd sâl o adnodd prin. Gall hyn olygu hefyd bod gofal claf arall yn cael ei ohirio. Yn yr un modd mae diffyg cefnogaeth yn dilyn trosglwyddo hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau ceisio osgoi mynediad pellach i ysbyty neu ddibyniaeth heb fod angen ar wasanaethau.

2.4 Dylai bod gan bob sefydliad iechyd bolisi neu drefniadau ffurfiol mewn lle ar gyfer cynllunio'r modd caiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty. Prif nod y trefniadau hyn yw lleihau'r cyfnod sydd rhaid i gleifion dreulio yn yr ysbyty, lleihau'r posibilrwydd y bydd cleifion yn dychwelyd i'r ysbyty mewn modd heb ei gynllunio a gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cefnogol eu cydlynu a'u darparu i gleifion pan fyddent wedi dychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

2.5 Nid cyfrifoldeb un corff megis iechyd mo'r trefniadau hyn ond cyfrifoldeb ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a'u partneriaid yn y gymuned. Y mae dealltwriaeth y cyrff hyn o'u cyfrifoldebau hwy a'r modd y maent yn cyfathrebu a chydweithio er lles y claf yn hanfodol i lwyddiant unrhyw drefniadau.

2.6 Pryder am y trefniadau hyn sydd wrth wraidd yr ymchwiliad craffu hwn. Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau bryderon am addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yng Ngwynedd. Sail eu pryderon oedd profiadau a a fynegwyd gan rai o'u hetholwyr wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty, a hynny heb y

DRAFFT

gefnogaeth gofal a'r rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol priodol mewn lle i'w galluogi i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned mewn rhai achosion.

## 3. Pwrpas yr Ymchwiliad

3.1 Fe gytunwyd felly mai pwrpas yr ymchwiliad hwn oedd ystyried pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid ar gyfer rhyddhau cleifion hŷn o'r ysbyty a'u cefnogi i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

3.2 Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr ymchwiliad yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.
- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.
- Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd / Gogledd Cymru.
- Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad.

3.3 Er bod y pwrpas a nodwyd uchod yn weddol eang, yn ymarferol prif ffocws yr ymchwiliad oedd rhyddhau cleifion o Ysbyty Gwynedd gan mai yno, ar hyn o bryd, y mae'r mwyafrif o drigolion Gwynedd yn mynd am driniaeth. Ond, wrth wneud y gwaith hwnnw, fe ddaeth rhai materion eraill i'r amlwg ac fe gyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn.

DRAFT

**4. Methodoleg a phrif weithgaredd yr Ymchwiliad Craffu**

4.1 Ceisiwyd ymgynghori'n eang gyda'r prif bartneriaid yn y maes hwn i gywain a chasglu gwybodaeth am y trefniadau a'r ymddygiad gan gynnwys:

i. Uwch Reolwr Safle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
ii. Uwch Reolwr Busnes (Gwasanaethau Cymdeithasol)
iii. Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd)
iv. Tîm Aml disgyblaethol Rhyddhau o'r Ysbyty (Ysbyty Gwynedd)
v. Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd a Rheolwr Ardal Arfon (Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd)
vi. Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mantell Gwynedd
vii. Sampl o 14 Defnyddiwr Gwasanaeth a Chleifion mewn 4 sesiwn ar draws Gwynedd (Atodiad 3)

4.2 Yn ystod yr ymchwilid gwahoddwyd swyddogion mudiadau o'r Trydydd Sector i gyfarfod y Pwyllgor Craffu i drafod eu cyfraniad hwy i'r trefniadau a'r gefnogaeth gymunedol sydd ar gael yng Ngwynedd bellach. Yn anffodus, nid oeddynt yn gallu bod yn bresennol ac nid oedd amserlen cwblhau ymchwiliad yn canatau ei ail drefnu. Roedd hyn yn siom i aelodau'r Ymchwiliad.

4.3 Fe drefnwyd tair sesiwn i drafod y trefniadau rhyddhau sef

i. Cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb ar y trefniadau a'r cydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd.
ii. Cyfarfod gyda thimoedd gweithredol Ysbyty Gwynedd a Chyngor Gwynedd i drafod gweithredu'r trefniadau trosglwyddo gyda chyfle i weld cyfleusterau penodol gan gynnwys y Lolfa Drosglwyddo. Yn ystod y cyfarfod hwn hefyd amlinellwyd y trefniadau peilot newydd
iii. Cyflwyniad gan Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mantell Gwynedd ar y gwasanaethau sydd ar gael gan y Trydydd Sector i

DRAFT

gefnogi unigolion unwaith maent wedi cael eu rhyddhau ac yn ôl yn y gymuned.

Gweler Atodiad 4 am nodiadau ar y cyfarfodydd hyn.

4.4 I gefnogi'r ymchwiliad, edrychwyd ar ymarfer da mewn ysbytai eraill ac ar ganllawiau arfer da cydnabyddedig (Atodiad 1).

4.5 Trefnwyd pedwar sesiwn ar draws Gwynedd naill ai yn y Cyngor Pobl Hŷn neu'r Fforymau Pobl Hŷn i drafod profiad pobl hŷn eu hunain o gael eu rhyddhau o'r ysbyty (Atodiad 3).

4.6 Ystyriwyd y rhestr cwynion i'r Bwrdd Iechyd a Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn seiliedig ar drefniadau rhyddhau hefyd er mwyn adnabod unrhyw dueddiadau cyson.

**5. Canfyddiadau yn unol â Brîff yr Ymchwiliad Craffu.**

**5.1 Polisi a Threfniadau Rhyddhau.**

**Canfyddiadau**

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bolisi rhyddhau manwl sef y *Discharge Protocol* sydd yn ôl y wybodaeth ar y ddogfen i'w adolygu ym Mawrth 2014. Mae'n bolisi manwl yn seiliedig ar y trefniadau presennol ac yn adlewyrchu ymarfer da cydnabyddedig. Mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol y Gogledd hefyd wedi ymrwymo i'r polisi hwn.

Mae rhai cleifion yn Ne Meirionnydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a hynny'n bennaf yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Wrth drafod gyda swyddogion o'r Bwrdd hwnnw am drefniadau rhyddhau, fe ddaeth yn amlwg nad oes gan y Bwrdd, ar hyn o bryd, bolisi cytunedig mewn lle.

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- *Discharge Protocol* BIPBC
- Ymchwil ar ymarfer dda Atodiad 4
- Trafodaeth gyda swyddogion o Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

DRAFT

**Argymhelliad i Aelod Cabinet Gofal**

- Gwirio fod *Discharge Protocol* BIPBC wedi ei adolygu ac yn gyson â threfniadau gweithredol Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn y gymuned
- Gofyn i'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno ar brotocol rhyddhau o'r ysbyty a threfniadau ymarferol i'w weithredu

**5.2 Cydweithio a Chyfathrebu**

**Canfyddiadau**

Prawf unrhyw brotocol neu weithdrefn yw ei weithredu. Wrth siarad efo pobl hŷn yn y fforymau, fe ddaeth yn amlwg iawn mai prin oedd eu beirniadaeth hwy ar y trefniadau rhyddhau o'r ysbyty.

Mae ymchwil ar ymarfer da yn dangos yn eglur pa mor bwysig ydy cyfathrebu clir wrth geisio sicrhau trefn ryddhau neu drosglwyddo esmwyth o un lleoliad gofal i un arall neu yn ộl adref. Y mae cynnwys y claf a'i deulu ym mhob trafodaeth yn amlwg ond yr un mor bwysig ydy'r cyfathrebu rhwng gweithwyr o wahanol asiantaethau i sicrhau cydweithio a gweithio'n integredig er budd y claf.

Fe ddaeth yn amlwg yn y sesiynau tystiolaeth fod cydweithio agos rhwng swyddogion aml ddisgyblaethol o Ysbyty Gwynedd gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal ac iechyd yn y gymuned.

Ond, er hynny, fe welwyd enghreifftiau lle nad oedd y cyfathrebu a'r cydweithio yn gweithio cystal. Mewn un achos roedd y diffyg cyfathrebu rhwng y Tîm Rhyddhau a Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfarfod aml ddisgyblaethol wedi achosi gohirio cyfarfod am nad oedd y Tîm Gwaith Cymdeithasol wedi cael gwybod mewn pryd i fynychu. Fe wnaeth y teulu gwyn am hyn.

Mae arfer da yn awgrymu bod cydleoli'r Tîm Rhyddhau o'r Ysbyty a'r Tîm Gweithwyr Cymdeithasol yn cynyddu cydweithio er budd y claf gan sicrhau'r gwasanaeth gorau iddo. Mae Ysbyty Wiston yn y Wirral wedi mabwysiadau'r drefn hon yn llwyddiannus iawn ac mewn ysbytai eraill yn Lloegr mae'r un rheolwr yn rheoli'r ddau dîm eto er mwyn gwella cyfathrebu a chydweithio er budd y claf.

Eto, wrth siarad gyda phobl hŷn am eu profiadau, mynegwyd peth pryder am yr amser oedd rhaid disgwyl am feddyginiaeth cyn rhyddhau. Roedd rhai wedi bod yn disgwyl am dros 4 awr. Meddai un "9 out of 10 times time they know you are being discharge the day before, why can't they get eveything done before hand?"

Mewn achos arall, trefnwyd i nyrs ardal weld cleifion ar ôl iddynt gael llawdriniaeth orthopaedig gan yr Ysbyty. Ond er hynny gorfu iddynt wneud trefniadau eraill i weld y nyrs

o fewn y feddygfa leol gan nad oedd y neges wedi ei chyfathrebu i'r nyrs ardal.

Mynegwyd pryder hefyd am ymwybyddiaeth staff a thrigolion am y gwahanol brosiectau neu wasanaethau cefnogol sydd ar gael o fewn ein cymunedau. Gall y rhain fod yn fodd i esmwytho rhyddhau a throsglwyddo a chynnig cefnogaeth ymarferol iawn i gadw pobl yn eu cymunedau ac osgoi mynediad diangen i ysbyty neu sefydliad gofal arall. Gwyddys fod gan y Groes Goch drefniant i fynd â chleifion adref a sicrhau fod manion bwyd angenrheidiol adref iddynt yn barod mewn rhai ardaloedd.

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- Tystiolaeth Cwynion
- Sesiwn tystiolaeth
- Ymchwil ar ymarfer dda (Atodiad 1 a 4)
- Tystiolaeth gan yr Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mantell Gwynedd
- sector
- Sesiwn ymgysylltu gyda Chleifion/defnyddwyr (Atodiad 3)

**Argymhelliad i Aelod Cabinet Gofal**

- Adolygu trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhwng y timau hynny sy'n hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty a'r asiantaethau hynny sy'n cynnig cefnogaeth yn y gymuned er mwyn adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth i gleifion gan edrych ar ymarfer dda mewn ardaloedd eraill

**5.3 Rhyddhau 7 Diwrnod yr Wythnos**

**Canfyddiadau**

Un awgrym o ymarfer da yn y maes hwn ydy sicrhau trefniadau rhyddhau o'r ysbyty 7 diwrnod yr wythnos yn hytrach na threfn yn seiliedig ar ymarfer pum diwrnod. Mae trefn o'r fath yn galluogi claf i fynd adref pan fo'n barod yn hytrach na gorfod aros dros y Sul mewn rhai achosion i drefnu pecyn gofal. Mewn achosion cymhleth sy'n gofyn am gynllunio gofal gofalus iawn, mae'n ffordd fwy effeithiol o weithio. I weithredu trefn o'r fath yn llwyddiannus, mae gofyn i'r holl asiantaethau gydweithio a chytuno i gynnig eu gwasanaethau hwy 7 diwrnod hefyd.

Mae ymchwil yn dangos bod rhyddhau 7 diwrnod yr wythnos yn ffordd effeithiol o sicrhau cydbwysedd gwlâu o fewn ysbytai ac yn rhoi hyblygrwydd i ddefnyddwyr gael eu rhyddhau ar amser gan gynnwys penwythnosau. Mae arfer da yn amlygu bod o'n bwysig i unigolion fynd adref cyn gynted â phosib gan fod aros o fewn ysbyty yn cynyddu risg o haint, colli annibyniaeth ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n amhriodol.

Treialwyd gwasanaeth 7 diwrnod o fewn Ysbyty Gwynedd am gyfnod o 5 mis ond daeth y

DRAFT

| |
|---|
| gwasanaeth i ben ym mis Mai 2014. Roedd y tîm aml ddisgyblaethol yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd a Chydlynydd Rhyddhau a oedd yn gweithio dros y penwythnos i gynnig y gwasanaeth.<br><br>Doedd y gwasanaeth dros dro ddim yn un cyflawn gan nad oedd pecynnau gofal o'r newydd neu newid i becynnau gofal ar gael dros benwythnosau. Yn yr un modd, doedd offer gan fudiadau 3ydd sector hefyd ddim ar gael i alluogi rhyddhau ar benwythnos. Er hyn, roedd gweithwyr yn gallu cynllunio ymlaen a sicrhau bod claf yn cael ei ryddhau yn gynnar ar ddydd Llun dan y drefn newydd. Ond, fe ddangosodd y peilot hwn botensial gweithredu trefn o'r fath i gleifion a'u teuluoedd a'r ystyriaeth pe mabwysiadwyd trefn o'r fath. Roedd y staff yn bendant yn gweld ei fanteision.<br><br>Mae cynnig gwasanaeth fel yr amlinellwyd uchod wedi ei gynnwys o fewn cais Gwynedd am y Grant Gofal Canolraddol sy'n gyfwerth â gwariant o £1.3 miliwn refeniw ar wasanaethau integredig. Datblygwyd amlinelliad o'r Prosiect yn ystod oes yr Ymchwiliad Craffu hwn.<br><br>Mae'r cynnig, sy'n cynnwys partneriaid aml asiantaethol, yn awyddus i ariannu i ddatblygu a phrofi modelau newydd o wasanaeth sy'n sicrhau cynliadwyedd i'r dyfodol a gwell canlyniadau i bobl hŷn. Ymhlith y buddion a nodir yn y cais:<br><br>➢ Tîm Trawsffurfio<br>➢ Gwella Cyfathrebu<br>➢ Capasiti dros y Sul<br>➢ Gwella trefniadau rhyddhau a chefnogaeth rhyddhau<br>➢ Mynediad at ddarparu offer amserol ac addasiadau<br><br>Fe fydd craffu cynnydd rhaglen waith y Bwrdd Prosiect Gofal Canolraddol yn allweddol i'r Pwyllgor Craffu os am sicrhau'r buddion gorau i bobl hŷn yn y maes hwn.<br><br>Ar fater mwy ymarferol, gwahoddwyd Aelodau'r Ymchwiliad Craffu i Ysbyty Gwynedd i gyfarfod y staff dan sylw i ac i ymweld â'r Lolfa Trosglwyddo sy'n elfen greiddiol. |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth**<br><br>• Ymchwil ar ymarfer dda (Atodiad 1 a 4)<br>• Sesiwn tystiolaeth (Atodiad 4) |
| **Argymhelliad i Aelod Cabinet Gofal**<br><br>• Adolygu'r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo sydd wedi ei gynnig dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac ystyried unrhyw faterion perthnasol wrth ddatblygu gwaith o fewn y Prosiect Gofal Canolraddol yn yr un maes<br>• Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y Prosiect Gofal Canolraddol<br>• Pwyso am welliannau i'r Lolfa Drosglwyddo gan ei gwneud yn ystafell gyfforddus a phwrpasol gan gynnwys cyfleusterau newid a symud y toiledau anabl yn agosach at y Lolfa. |

DRAFFT

**5.4 Mwy na Geiriau**

**Canfyddiadau**

Cyfeiriwyd eisoes at yr angen i sicrhau cyfathrebu clir gyda defnyddwyr a chleifion ac yn y cyd-destun hwn er mwyn iddynt ddeall be sydd yn digwydd ac iddynt fod yn rhan o'r broses ryddhau a throsglwyddo.

Mae sicrhau gwasanaethau dwyieithog ar gyfer pobl ddwyieithog wedi ei gynnwys o fewn cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar barch ac urddas i gleifion.

Nod 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru yw cryfhau gwasanaethau Cymraeg ymhlith rheng flaen iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Er nad oedd argaeledd gwasanaethau Cymraeg o fewn cylch gorchwyl yr Ymchwiliad Craffu hwn, fe fynegwyd pryder os oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael mewn rhai achosion a dymuniad am fwy o eglurder ynglŷn â gallu BIPBC i ddarparu gwasanaethau o'r fath mewn cyfnod pan fo claf yn gorfod teithio'n bellach am wasanaeth.

Yn ogystal, mae pedwar grŵp bregus wedi eu hadnabod ble mae cynnig gwasanaethau Cymraeg / dwyieithog yn fater o flaenoriaeth glinigol, sef pobl hŷn, plant a phobl ifanc, pobl ag anabledd dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl oherwydd natur eu anghenion. Mae ymchwil yn dangos fod hyd yn oed pobl sy'n rhugl yn ddwyieithog yn aml yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg gyda nyrs neu weithiwr cymdeithasol ac yn arbennig felly mewn lleoliad dieithr neu mewn argyfwng.

**Argymhelliad i Aelod Cabinet Gofal**

- Gofyn i BIPBC am ddiweddariad ar eu cynlluniau i weithredu 'Mwy na Geiriau'

**5.5 Casglu barn cleifion**

**Canfyddiadau**

Roedd hi'n dasg digon anodd casglu barn cleifion hŷn ar drefniadau rhyddhau a throsglwyddo Ysbyty Gwynedd.

Mae'n deg nodi bod y mwyafrif o bobl hŷn yn canmol y gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty wrth eu holi mewn sesiynau. Ond, fe ddaeth hi'n amlwg hefyd bod pobl hŷn ar y cyfan yn amharod i weld bai ar unrhyw drefniant ar eu cyfer. Prin oedd y bobl hynny oedd yn fodlon dweud eu cwyn.

Ond er mwyn gwella unrhyw wasanaeth rhaid cael adborth gan y cwsmeriaid hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chasglu'r sylwadau hynny boed yn ganmoliaethus neu yn feirniadol.

DRAFT

| |
|---|
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth**<br><br>• Sesiwn tystiolaeth (Atodiad 4)<br>• Sesiwn ymgysylltu (Atodiad 3) |
| **Argymhelliad i Aelod Cabinet Gofal**<br><br>• Datblygu ffyrdd o gasglu bodlonrwydd cleifion hŷn ar y gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod ganddynt lais yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth gorau iddynt hwy |

## 6. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

6.1 Cyflwynir yr adroddiad er ystyriaeth yr Aelod Cabinet – Gofal. Mae aelodau'r ymchwiliad yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet ar ei ymateb i'r argymhellion maes o law.

DRAFFT

## Atodiad 1

## Dogfennau Cefndir


AGE UK (2014) Factsheets 37 – Hospital discharge arrangements. London

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (2012) Discharge Protocol. Bangor

CARERS UK (2012) Coming out of hospital.

CHRISTIE NHS FOUNDATION TRUST (2011) Discharge And Transfer Policy.

DEPARTMENT OF HEALTH (2010) Ready to Go? Planning the discharge and the transfer of patients from hospital and intermediate care, London

DEPARTMENT OF HEALTH (2003) Discharge from Hospital: pathway, Process and practice. London

HALTON AND ST HELENS (2009) Admission & Discharge Policy, Newton Community Hospital


NEWCASTLE UPON TYNE HOSPITALS NHS FOUNDATION TRUST (2012) Hospital Discharge Policy.

NHS (2004) Achieving Timely “simple” discharge from Hospital. London

ST HELENS COUNCIL (2012) Enhanced Integrated Hospital Discharge Team and Community Care Project.

01st April 2013 – 31st March 2014

There have been a total of 39 concerns recorded for the time period.




| Concerns by Type | |
|---|---|
| Formal | 18 |
| On The Spot | 19 |
| OTS upgraded to Formal Complaint | 2 |
| Totals: | 39 |

| Concerns by Subject | Access, Appointment, Admission, Transfer, Discharge |
|---|---|
| Delay in discharge | 7 |
| Inappropriate Discharge | 32 |
| Totals: | 39 |

ATODIAD 2

**Concerns by Sub-subject and Unit**

| | Ysbyty Gwynedd - Acute | Ysbyty Cefni Hospital | Ysbyty Penrhos Stanley | YG Mental Health - Hergest Unit, Ysbyty Gwynedd | GP Out of Hours Service | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Assessment - other | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Delay in discharge | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Wrong diagnosis | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Inappropriate Discharge | 23 | 1 | 1 | 1 | 0 | 26 |
| Insensitive to patient needs | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Poor nursing care | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Patient's case notes or records | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Staff attitude | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Unacceptable Waiting Time | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Totals: | 35 | 1 | 1 | 1 | 1 | 39 |

# ATODIAD 3

Rhoddwyd cyflwyniad yng nghyfarfodydd Fforymau Ardal Age Cymru a Chyngor Pobol Hyn Gwynedd yn rhoi cynnig i unigolion a oedd wedi bod yn yr ysbyty ddod atom ar ddiwedd y sesiwn.

Gofynnwyd dau gwestiwn:

1. *Beth oedd eich profiad chi wrth gael eich rhyddhau o'r ysbyty?*
2. *Sut allwn helpu gwella eich profiad chi o'r proses rhyddhau o'r ysbyty tro nesaf?*

Roeddent wedi amlygu bod barn bositif a negyddol yn bwysig iawn i'w drafod er mwyn adnabod gwelliannau ond hefyd edrych ar arfer da.

Dyma yr ymateb cafwyd o fewn y sesiynau yma:

| Sesiwn | Nifer o fewn y Sesiwn | Ymateb i'r Ymchwiliad |
|---|---|---|
| Fforwm Pobol Hyn Gwynedd | 25 | 5 |
| Fforwm AGE Arfon | 14 | 2 |
| Fforwm AGE Dwyfor | 20 | 2 |
| Fforwm AGE Meirionnydd | 21 | 5 |
| **Cyfanswm** | **80** | **14** |

# ATODIAD 4 – Sesiynau Tystiolaeth

**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**

**NODIADAU Grŵp Ymchwiliad Craffu – Gofal (O'r Ysbyty i'r Cartref), 6 Chwefror 2014**

Presennol

**Y Cynghorwyr**:- Peter Read (Cadeirydd), Huw Edwards, Eryl Jones-Williams ac Ann Williams.

Swyddogion yr Ymchwiliad:- Darren Griffiths (Rheolwr Cynllunio Strategol), Meilys Heulfryn Smith (Uwch Reolwr Busnes – Gwasanaethau Cymdeithasol), Bethan Adams a Lowri Haf Evans (Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd**:- Eleri Evans (Uwch Reolwr Clinigol Safle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), Glenda Lloyd Evans (Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd), Ellen George (Rheolwr Ardal Tîm dros 18 Arfon, Gwasanaeth Oedolion, Cyngor Gwynedd) a Bridgitte Williams (Arweinydd Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Gwynedd ac Ynys Môn, Ysbyty Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones a Linda A. W. Jones.

**2. NODIADAU CYFARFOD 22 IONAWR 2014**

Derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod diwethaf o'r Grŵp Ymchwiliad Craffu fel rhai cywir.

**3. CYFLWYNIADAU A SESIWN HOLI AC ATEB**

Croesawyd a diolchwyd i Eleri Evans, Glenda Lloyd Evans, Ellen George a Bridgitte Williams am gytuno i gwrdd ag aelodau'r Ymchwiliad Craffu.

Cyflwynodd pawb eu hunain.

Gosodwyd y cyd-destun a phwrpas yr Ymchwiliad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol.

Cafwyd cyflwyniad gan y canlynol a rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau:-

**(i) Ellen George, Rheolwr Ardal Tîm dros 18 Arfon, Gwasanaeth Oedolion, Cyngor Gwynedd**

Nododd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y tîm yn gyfrifol am unigolion dros ddeunaw oed gan gynnwys unigolion efo anableddau a chyflwr dementia;

- Bod ei thîm yn gweithio yn y gymuned gydag unigolion sy'n adnabyddus i'r Cyngor;
- Bod y tîm yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Galluogi;
- Bod y Gweithwyr Galluogi yn gyfrifol am ddychwelyd unigolion yn nôl i'r gymuned a rhoi cymorth i Ofalwyr yr unigolion;
- Bod y tîm yn gweithredu'r drefn rheoli galw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd bod cyd-weithio/cyfathrebu yn digwydd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar y lefel isel o'r drefn reolaethol ond bod angen cryfhau'r berthynas. Ychwanegodd bod pwysau ar BIPBC i ryddhau gwlâu ac ar y Cyngor i beidio amsugno unigolion i mewn i'r drefn Gwasanaethau Cymdeithasol os nad oedd wir angen.

Nododd aelod ei bryder bod unigolion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty lle nad oedd rhag rhybudd o'r amser dychwelyd adref i Ofalwyr yr unigolion. Mewn ymateb, nododd Ellen George bod y tîm yn trefnu amser / asesu gwasanaeth sydd ei angen ar gyfer unigolion sydd yn methu gwneud popeth ar gyfer eu hunain. Ychwanegodd eu bod yn gweithio o dan gyfyngiadau amser ac yn ymdrechu i gwrdd ag anghenion unigolion.

Ychwanegodd Glenda Lloyd Evans bod teulu neu gymdogion yn sicrhau bod unigolion yn cyrraedd adref i dŷ cynnes a bod bwyd yn y tŷ yn arferol, ond efo'r unigolion mwyaf bregus gobeithir bod sgwrs yn cael ei gynnal yn yr Ysbyty i drafod eu sefyllfa. Nododd bod y Groes Goch yn rhoi cymorth yn ogystal i unigolion yn Ardal Arfon ond bod wir angen y ddarpariaeth drwy Wynedd.

Mewn ymateb i ymholiad parthed pwy oedd yn gyfrifol am benderfynu anfon unigolion i Uned Lleu ym Mhenygroes sydd yn rhan o'r Cynllun Galluogi, nododd Ellen George bod lle i fyny i 6 person yn yr Uned a bod y penderfyniad o ran pwy sy'n gymwys ar gyfer y ddarpariaeth yn cael ei wneud gan Weithwyr Cymdeithasol a Rheolwr y Cartref. Ychwanegodd mai nod y Cynllun Galluogi oedd gwneud trefniadau i alluogi unigolion i ddychwelyd adref neu o ganlyniad i asesiad eu lleoli mewn cartref. Pwysleisiodd mai gofal yn y gymuned yw'r nod.

**(ii) Glenda Lloyd Evans, Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd**

Nododd mai'r ffocws yw ceisio cael pobl adref ond bod darpariaeth gofal canolraddol ar gael i unigolion. Adroddodd bod 3 gwely yng nghartref preswyl Cerrig yr Afon yn Felinheli ar gyfer y ddarpariaeth, a bod 'spot purchase' o wlâu mewn cartrefi preswyl

preifat lle mae'r galw am y ddarpariaeth yn Nwyfor a Meirionnydd. Nododd aelod ei fod yn falch o'r defnydd o wlâu mewn cartrefi preswyl/nyrsio preifat.

Adroddodd bod Cynllun Gofal Ychwanegol yn Ardal Meirionnydd ac mai bwriad BIPBC oedd ehangu'r ddarpariaeth i Arfon a Dwyfor maes o law. Nododd bod cyd-weithio rhwng Cyngor Gwynedd a BIPBC i wella'r ddarpariaeth i alluogi unigolion i fyw gartref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd bod datganiad o fwriad rhanbarthol wedi ei baratoi yn dilyn dymuniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwasanaeth anghenion cymhleth. Pwysleisiodd y byddai'n hanfodol i'r Fforwm Sirol bwriadedig fod yn effeithiol gan flaenoriaethu yn glir a gosod yr agenda.

Mewn ymateb i sylw gan aelod eglurodd bod £50 miliwn o arian unwaith ac am byth wedi ei roi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaeth gofal canolraddol ar draws Cymru gyda dyraniad fesul rhanbarth. 'Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio sut y gellir defnyddio'r arian orau.

**(iii) Eleri Evans, Uwch Reolwr Clinigol Safle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Nododd ei bod hi a'i thîm yn gyfrifol am dderbyniadau i'r ysbyty, gwlâu, rhyddhau cleifion o'r ysbyty a rhoi cymorth i staff yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, ynghyd a rhoi cymorth ar y wardiau pan fo problemau staffio.

Nododd bod cyd-weithio rhwng ei thîm a thîm Gwasanaethau Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd wedi gwella.

Nododd nad oedd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty nes ei fod yn ddiogel yw rhyddhau. Ychwanegodd Glenda Lloyd Evans bod pwysau cynyddol ar wlâu ac ar staff mewn ysbytai i ryddhau cleifion cyn gynted â phosib, ond os yw'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol ddim yn cytuno efo'r farn feddygol neu nad yw'r trefniadau mewn lle i'r cleifion cael eu rhyddhau yn ddiogel, byddent yn cwestiynu'r penderfyniad. Ychwanegodd ymhellach bod nyrsys ar y wardiau yn cwestiynu rhai penderfyniadau yn ogystal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd bod Ysbyty Glan Clwyd yn colli 60 o wlâu a byddai hyn yn ychwanegu at y pwysau cynyddol ar wlâu a'i bod yn pryderu nad oedd cynllun wrth gefn.

Nododd aelod mai gwraidd y broblem oedd diffyg yn y nifer o wlâu mewn ysbytai ac mai mater i brif swyddogion Cyngor Gwynedd oedd pwysleisio i swyddogion BIPBC nad oedd y trefniadau yn gweithio a bod hyn yn annerbyniol. Ychwanegodd bod problemau yn codi oherwydd bod rhai unigolion yn amharod i ofyn am gymorth neu nad oeddynt yn ymwybodol o'r Cynllun Galluogi.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd Glenda Lloyd Evans bod Gweithiwr Cymdeithasol, wedi ei ariannu o'r Gronfa Gofal Canolraddol, yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd am 4 awr ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Ychwanegodd y bwriedir cael 1 Gweithiwr Cymdeithasol i wasanaethu Dwyfor a Meirionnydd yn yr un modd dros y penwythnosau.

**(iv) Bridgitte Williams, Arweinydd Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Gwynedd ac Ynys Môn, Ysbyty Gwynedd**

Nododd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod tîm ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn wedi ei sefydlu ers tair blynedd;
- Bod y tîm yn delio ag achosion newydd yn ogystal ag achosion a oedd yn agored yn y gymuned lle nad oedd Gweithiwr Cymdeithasol penodol wedi ei benodi;
- Bod y tîm yn cynnwys Arweinydd Tîm, 2 ½ swydd Gweithiwr Cymdeithasol, 1 swydd Gweithiwr Cymdeithasol dros dro a 2 Asesydd Gofal;
- Bod angen caniatâd y claf cyn derbyn y cyfeiriad;
- Bod y tîm yn asesu anghenion cleifion pan maent yn barod i adael yr ysbyty ac yn penderfynu os yw'r cleifion angen cefnogaeth statudol neu gymorth gan y Trydydd Sector;
- Bod perthynas agos efo'r tîm a'r Groes Goch a Chynnal Gofalwyr;
- Eu bod yn cydweithio'n agos efo tîm Eleri Evans;
- Bod sefydlu Tîm Asesu, Rhyddhau a Throsglwyddo yn ddatblygiad diweddar;
- Bod bwriad i integreiddio'r tîm rhyddhau a thîm Gwasanaethau Cymdeithasol at ei gilydd fel un tîm gyda BIPBC yn edrych am leoliad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd bod angen adeiladu ar y cyd-weithio sydd yn digwydd yn barod.

Holodd aelod pa mor bwysig yw'r Iaith Gymraeg o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mewn ymateb, nododd bod pawb o fewn y tîm yn ddwyieithog.

Mewn ymateb i sylw ran diffyg darpariaeth mewn ysbytai cymunedol, nododd Glenda Lloyd Evans yn dilyn cau Uned Hafan ac Uned Meirion bod y Cyngor yn gweithio efo BIPBC i gomisiynu gwely mewn cartref preifat sy'n arbenigo mewn dementia yn Ardal Dwyfor.

Nododd Glenda Lloyd Evans bod cyfarfod wedi ei gynnal efo Dr Bill Whitehead, Cyfarwyddwr Clinigol yn y Gymuned BIPBC, ynglŷn â rôl ysbytai cymunedol a'r

posibilrwydd o unigolion yn aros cyfnod mewn cartref nyrsio cyn mynd adref. Ychwanegodd Eleri Evans fod cynllun o'r fath yn gweithredu'n llwyddiannus yng Nghonwy.

Yng nghyswllt absenoldeb darpariaeth Gymraeg i asesu unigolion am ddementia, nododd Ellen George bod cymhlethdodau pan fo unigolion ond yn gyfforddus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Busnes – Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwaith ar y gweill i asesu os oedd contractau'r Cyngor yn cydymffurfio â'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau'. Nododd os oedd y disgwyliadau iaith yn y contractau ddim digon cryf a ddim yn cydymffurfio, byddai cynllun gweithredu yn cael ei sefydlu i ymateb i'r diffyg.

Esboniodd Eleri Evans y prif ystyriaethau wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty:

- Nyrs yn sicrhau bod rhywun i ddod i nôl y claf;
- Sicrhau ei bod yn bosib i'r claf fynd adref yn saff;
- Oes angen anfon cyfeiriad i Wasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau bod tabledi wedi eu harchebu;
- Os oes problem o ran trafnidiaeth adref yna dylid cysylltu efo Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Yng nghyswllt problemau sydd yn codi efo trafnidiaeth adref, nodwyd bod problemau yn codi lle nad oedd trafnidiaeth wedi ei logi gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru digon buan.

Mewn ymateb i sylw parthed problemau efo derbyn tabledi yn amserol cyn mynd adref, nododd Eleri Evans bod y sefyllfa yn gwella a bod y Fferyllwyr yn ymweld â'r wardiau bob bore ac am hanner dydd bob diwrnod i drefnu tabledi.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau a gofynnwyd i'r rhai a wahoddwyd trosglwyddo diolchiadau'r aelodau am y gwaith sydd yn cael ei gyflawni i'w staff.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.05pm a daeth i ben am 3.40pm.

**<u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>**

**<u>NODIADAU Grŵp Ymchwiliad Craffu – Gofal (O'r Ysbyty i'r Cartref), 25 Mawrth 2014</u>**

<u>Presennol</u>

**Y Cynghorwyr**:- Peter Read (Cadeirydd), Huw Edwards, Linda A. W. Jones ac Ann Williams.

**Swyddogion yr Ymchwiliad**:- Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Bethan Adams a Lowri Haf Evans (Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd**:- Eleri Evans (Uwch Reolwr Clinigol Safle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), Ceri Pritchard (Therapydd Galwedigaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), Yvonne Moules Roberts (Gweithiwr Cymdeithasol, Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Gwynedd ac Ynys Môn, Ysbyty Gwynedd), Stuart Whittle (Nyrs Anabledd Dysgu Cymwysedig) a Sarah Williams (Cydlynydd Rhyddhau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

**1. CROESO**

Croesawyd a diolchwyd i Eleri Evans, Ceri Pritchard, Yvonne Moules Roberts, Stuart Whittle a Sarah Williams am gytuno i gwrdd ag aelodau'r Ymchwiliad Craffu.

Cyflwynodd pawb eu hunain.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones ac Eryl Jones-Williams.

**3. NODIADAU CYFARFOD 6 CHWEFROR 2014**

Derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod diwethaf o'r Grŵp Ymchwiliad Craffu fel rhai cywir.

**4. CYFLWYNIAD AR Y TÎM ASESU, RHYDDHAU A THROSGLWYDDO**

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan Sarah Williams ar y Tîm Asesu, Rhyddhau a Throsglwyddo yn Ysbyty Gwynedd.

Nodwyd bod y tîm a oedd yn cynnwys Cydlynwyr Rhyddhau, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys wardiau Gogarth, Aran a Beuno ynghyd a Therapyddion Galwedigaethol wedi ei sefydlu ym mis Hydref 2013.

Nododd ei bod yn arwain y tîm, gyda 3 aelod o staff yn ogystal â 1 Gweithiwr Cymdeithasol yn gweithio oriau ychwanegol ar y penwythnos o 10.00 o'r gloch y bore dan 2.00 o'r gloch y pnawn. Ychwanegodd bod angen mwy o staff yn y tymor hir er mwyn i'r tîm lwyddo.

Nododd Eleri Evans bod yr arian ychwanegol a dderbyniwyd i alluogi cynnig y gwasanaeth ar y penwythnos yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2014.

Ymhelaethwyd bod y staff yn mynd o amgylch cleifion a oedd wedi eu dynodi ar y Raddfa Breuder Clinigol efo sgôr breuder rhwng 4 a 6 er mwyn ceisio galluogi rhyddhau'r cleifion yn ddiogel ymhen 5 diwrnod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi parthed derbyn sylwadau'r cleifion, nododd Eleri Evans bod Arweinydd Tîm Gweithwyr Cymdeithasol Gwynedd ac Ynys Môn yn cysylltu efo cleifion fel rhan o asesiad o waith y Tîm Asesu, Rhyddhau a Throsglwyddo.

Pwysleisiwyd bod 'what matter's conversation' yn cael ei gynnal efo'r claf a'u teulu yn gynnar wedi i'r claf gyrraedd yr ysbyty. Mewn ymateb i sylw gan aelod, nodwyd bod yr opsiynau rhyddhau yn cynnwys gofal canolraddol, ysbyty ymylol, ysbyty cymunedol, cartref preswyl neu adref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi parthed y 'what matter's conversation', nododd Sarah Williams mai sgwrs gyffredinol efo'r claf ydoedd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y gymhariaeth o ran rhwystrau rhwng rhyddhau cleifion i dai dan berchnogaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd neu berchnogaeth breifat lle'r oedd angen gwneud addasiadau i'r tai, nododd Sarah Williams nad oedd gwahaniaeth yng nghyswllt gofal cartref a darparu comôd. Ychwanegodd os oedd angen addasiadau i'r cartref megis canllawiau, bod yr unigolyn yn cael eu cyfeirio ar gyfer gofal canolraddol neu at Therapydd Galwedigaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed argaeledd gwlâu proffilio ar gyfer cartrefi'r cleifion, nododd Ceri Pritchard y gwneir cyfeiriad i'r Nyrs Ardal lle penderfynir bod angen y ddarpariaeth yma, ond nid oedd yn bosib cyfeirio at Nyrs Ardal ar y penwythnos felly fe hurir gwely gan gwmni.

Nododd Yvonne Moules Roberts bod asiantaethau preifat yn gallu cychwyn gwasanaeth gofal o'r newydd ar y penwythnos ar gyfer unigolyn, ond dim ond paratoi papurau ar gyfer yr unigolyn y gall Gweithwyr Cymdeithasol.

Roedd yr aelodau wedi ymweld â'r Lolfa Trosglwyddo ar gyfer unigolion oedd yn gadael yr ysbyty cyn cychwyn y cyfarfod. Nododd aelod bod y lolfa yn debyg i ward a bod angen ystafell gyfforddus a bwrpasol gan gynnwys cyfleusterau newid.

**5. SESIWN HOLI AC ATEB**

Rhoddwyd cyfle i'r gwahoddedigion gynnig sylwadau ac i'r aelodau ofyn cwestiynau.

Nododd Stuart Whittle ei fod yn Nyrs Anabledd Dysgu Cymwysedig. ‘Roedd wedi cynnal astudiaeth 6 mis ar drefniadau derbyn, hyd arhosiad a threfniadau rhyddhau yn Medi 2012. Ychwanegodd bod ei bresenoldeb fel Nyrs Anabledd Dysgu Cymwysedig yn hwyluso’r broses. Nododd bod trefniadau rhyddhau ar gyfer unigolion ac anableddau dysgu ddim yn hynod broblemus gan fod trefniadau gofal mewn lle eisoes yn y rhan fwyaf o achosion.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed unigolion ac anableddau dysgu a oedd angen gofal trwy gydol yr amser, nododd Sarah Williams y gellir trafod efo nyrsys y ward os oedd angen rhywun i aros efo’r claf. Ychwanegwyd bod y trefniadau wedi gwella ers 18 mis.

Mewn ymateb i sylw pellach gan aelod bod oriau ymweld safonol o 2 awr y diwrnod yng nghyswllt anghenion cleifion efo anableddau dysgu neu ddementia yn annigonol, nododd Sarah Williams bod staff y wardiau yn fodlon cynnal sgwrs am anghenion penodol y claf a dod i ddealltwriaeth ar drefniadau ymweld. Ychwanegodd Eleri Evans bod yr oriau ymweld penodedig yn sicrhau bod y cleifion yn gorffwys ac os oedd amgylchiadau arbennig y gellir cael sgwrs efo prif nyrs y ward.

Nodwyd bod Nyrs Anabledd Dysgu Cymwysedig yn bresennol yn Ysbytai Wrecsam, Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd. Ychwanegwyd bod presenoldeb Stuart yn lleddfu pryderon cleifion gydag anableddau dysgu gan wneud iddynt deimlo’n fwy cyfforddus.

Pwysleisiodd Sarah Williams bod angen mwy o gymorth yn y gymuned i alluogi cleifion i ddychwelyd adref mor gynted â phosib er mwyn lles yr unigolyn yn ogystal â’r angen i ryddhau gwlâu.

Nododd Stuart Whittle bod diffyg darpariaeth yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc oedd angen gofal nyrsio ac roedd hyn yn achosi bed-blocking.

Nododd Ceri Pritchard fod cwmni Gofal a Thrwsio yn cynnal sesiwn wythnosol yn Ysbyty Glan Clwyd i ateb cwestiynau unigolion, ac y byddai’n ddymunol cael hyn yn Ysbyty Gwynedd.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd Sarah Williams os oedd claf yn mynnu mynd adref bod y tîm ymateb cyflym yn cael eu galw i mewn. Ychwanegwyd os oedd claf efo’r gallu meddyliol ni ellir eu hatal rhag mynd adref. Nodwyd bod nifer uchel o achosion lle dychwelir claf i’r ysbyty mewn ychydig oriau wedi iddynt fynd adref yn groes i’r farn feddygol.

Cyfeiriodd aelod at gynllun gan ysbyty’r Chesterfield Royal lle'r oedd cleifion yn mynd adref efo pecyn bwyd. Roedd y staff o’r farn ei fod yn syniad da. Nododd Yvonne Moules Roberts bod Y Groes Goch yn cynnig y ddarpariaeth yn y gorffennol a bod

ganddynt 'Cynllun Gartref o'r Ysbyty' a oedd yn rhoi cymorth i gleifion wrth ddychwelyd adref yn ardal Arfon.

Nododd Sarah Williams pan fo unigolion yn barod i ddychwelyd adref y darperir rhestr ar gyfer gwasanaethau siopau, gofal a.y.b. iddynt.

Nodwyd bod darpariaeth Fferyllfa bellach ar gael drwy'r wythnos ac roedd hyn yn welliant sylweddol. Cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Ambiwlans dros y penwythnos, nodwyd bod y ddarpariaeth yn dda ar ddydd Sadwrn ond bod problemau yn codi ar ddydd Sul.

Yng nghyswllt darpariaeth ambiwlans nododd Eleri Evans y dylid sicrhau bod rhybudd digonol yn cael ei roi i'r gwasanaeth ac os nad oedd cludiant ar gael gan y gwasanaeth y byddent yn cysylltu efo'r Groes Goch i ddarparu cludiant yn Ardal Arfon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd Stuart Whittle ei fod wedi bod yn gofyn am sefydlu modd o adnabod anghenion unigolion mewn un bas data ers peth amser, a byddai o fudd i'r ysbytai yn ogystal â meddygon teulu.

Nododd aelod bod teclyn digidol gan weithwyr gofal a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis lleoliad allweddi, manylion y meddyg teulu a manylion anabledd. Ychwanegodd y dylid creu cyswllt at y wybodaeth yma ar gyfer defnydd yr ysbytai.

Adroddodd Yvonne Moules Roberts bod tîm Gweithwyr Cymdeithasol yr Ysbyty yn cynnwys Arweinydd Tîm, 2 ½ swydd Gweithiwr Cymdeithasol, 1 swydd Gweithiwr Cymdeithasol dros dro a 2 Asesydd Gofal. Nododd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ariannu swydd Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol dros dro ar gyfer gweithio'r penwythnos o 10.00 o'r gloch y bore dan 2.00 o'r gloch y pnawn. Nodwyd bod deilydd y swydd yn gorffen yn fuan a gofynnwyd am wirfoddolwr i weithio ar y penwythnosau. Nid oedd yn debygol bod gwirfoddolwr am gamu ymlaen felly tybir na threfn rota fydd yn y dyfodol. Ychwanegwyd yn wahanol i staff arall yr ysbyty nid oedd y Gweithwyr Cymdeithasol yn derbyn chwydd-daliad ar y penwythnos.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed beth fyddai'n dymuno newid yn y drefn bresennol, nododd Sarah Williams y byddai'n fuddiol bod pawb yn gweithio 7 diwrnod yr wythnos, gallu dechrau pecynnau newydd ar y penwythnos, mwy o oriau gwaith ar y penwythnos ac yr angen am fwy o lefydd mewn cartrefi preswyl.

Nododd Yvonne Moules Roberts y byddai uned galluogi yn Ne Gwynedd o gymorth i alluogi rhyddhau unigolion yn gynharach.

Nododd Ceri Pritchard fod wythnos gweithio o 7 diwrnod yn fuddiol ond ei fod yn cael effaith niweidiol ar staff. Ychwanegodd bod angen mwy o gefnogaeth yn y gymuned

gan yn aml fod y nyrsys yn gorfod defnyddio eu disgresiwn i adnabod bod unigolyn angen cymorth wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed niferoedd gydag anabledd dysgu oedd wedi eu cyfeirio at Stuart Whittle, nododd bod 22 unigolyn wedi eu cyfeirio ym mis Ionawr ac y byddai'n anfon gwybodaeth am y flwyddyn at yr aelod.

Nododd Stuart Whittle bod staff yn cydnabod yn yr hinsawdd ariannol sydd yn bodoli nad oedd modd cael adnoddau staffio ychwanegol. Ychwanegodd bod pwysau gwaith ar bawb ond ei fod mewn cyswllt rheolaidd efo gweithwyr cymunedol a bod y cyd-weithio yn llwyddiannus.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 4.15pm.

**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**

**NODIADAU Grŵp Ymchwiliad Craffu – Gofal (O'r Ysbyty i'r Cartref), 10 Ebrill 2014**

Presennol

**Y Cynghorwyr**:- Peter Read (Cadeirydd), Huw Edwards, Eryl Jones-Williams ac Ann Williams.

**Swyddogion yr Ymchwiliad**:- Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Dafydd Bulman (Rheolwr Polisi a Chomisiynu Corfforaethol), Bethan Adams a Lowri Haf Evans (Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd**:- Sioned Larsen (Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mantell Gwynedd).

**1. CROESO**

Croesawyd a diolchwyd i Sioned Larsen am gytuno i gwrdd ag aelodau'r Ymchwiliad Craffu.

Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolwyr o'r Groes Goch na Gwasanaeth Cyngor Adfocatiaeth Gogledd Cymru yn bresennol. Nododd aelod y dylid cysylltu efo'r mudiadau gan ofyn am adroddiad ysgrifenedig o ran eu darpariaeth. Ychwanegodd y dylid nodi yn yr ohebiaeth at y Groes Goch, pryder yr aelodau nad oedd y gwasanaeth ar gael ar draws Gwynedd.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones a Linda A. W. Jones.

## 3. SESIWN HOLI AC ATEB

Eglurodd Sioned Larsen mai corff ymbarél dros fudiadau’r trydydd sector oedd Mantell Gwynedd.

Nododd bod y Groes Goch yn cynnig gwasanaeth cartref o’r ysbyty lle cefnogir unigolion hyd at 6 wythnos ar ôl dod adref o’r ysbyty, gyda nôl siopa a chasglu presgripsiwn yn rhan o’u darpariaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd bod Croesffyrdd Gogledd Cymru yn cynnig gofal ysbaid ar draws yr ystod oed. Ychwanegodd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi comisiynu Croesffyrdd i gynnal prosiect peilot gwasanaeth gofal ysbaid byrdymor ar gyfer gofalwyr.

Cyfeiriodd aelod at gynllun Ffrindia’ gan nodi bod unigolion yn gweld gwerth yn y gwasanaeth. Nododd yr ariennir y cynllun Ffrindia’ gan y Gronfa Loteri Fawr a bod Mantell Gwynedd, Age Cymru Gwynedd a Môn a’r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn gweithio mewn partneriaeth.

Yng nghyswllt gwasanaeth adfocatiaeth nododd bod nifer o gwmnïau megis Gwasanaeth Adfocatiaeth Gogledd Cymru a Age Cymru yn darparu cefnogaeth i unigolion i fynegi eu hunain.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cymorth i unigolion wedi i’r ddarpariaeth o dan y Cynllun Galluogi ddod i ben, nododd bod y cynllun Ffrindia’ yn opsiwn a bod gan Age Cymru Gwynedd a Môn Ganolfannau Heneiddio’n Dda yn Bala, Cricieth, Dolgellau a Nefyn.

Ychwanegodd bod bylchau yn y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd a bod trafferthion recriwtio yn Ne’r Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed sut oedd unigolion yn dod i wybod am y gwasanaethau sydd ar gael, nododd bod unigolion yn cael eu cyfeirio trwy’r Ganolfan Ymgynghori ac Asesu gyda 300 allan o 900 o unigolion yn cael eu cyfeirio at fudiadau trydydd sector.

Ychwanegodd bod rhai Gweithwyr Cymdeithasol ddim yn hollol ymwybodol o ba unigolion oedd yn addas i’w cyfeirio.

Ymholodd aelod yng nghyswllt y Cynllun Ffrindia’, a oedd yr un gwirfoddolwr yn cael parhau lle'r oedd unigolyn yn datblygu dementia, nododd ei fod yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn.

Nododd mai nod cynlluniau o’r math yma oedd galluogi unigolion i fod yn annibynnol. Cyfeiriodd aelod at unigolyn oedd wedi magu hunan hyder gan ddefnyddio’r Cynllun Ffrindia’.

Nododd aelod bod angen cyfathrebu gwybodaeth i unigolion am y gwasanaethau sydd ar gael. Mewn ymateb, nododd bod y gwasanaethau yn cael eu marchnata yn barhaus a bod cydweithio agos rhwng mudiadau'r trydydd sector, Gweithwyr Cymdeithasol a nyrsys yn ysbytai cymunedol. Ychwanegodd efallai bod unigolion ddim yn cymryd sylw o'r gwasanaethau oedd ar gael tan eu bod angen cymorth.

Nododd bod Cyngor ar Bopeth yn defnyddio uned symudol Mantell Gwynedd i fynd allan i'r cymunedau i roi cyngor i unigolion ar y gwasanaethau oedd ar gael.

Adroddodd bod Llinos Parry wedi ei phenodi yn ddiweddar ac y byddai'n gweithio dros Wynedd, Conwy a Môn yn codi ymwybyddiaeth Gweithwyr Cymdeithasol o'r gwasanaethau a'r hyfforddiant oedd ar gael.

Diolchwyd i Sioned Larsen am ei chyfraniad.

**4. CAMAU NESAF**

Cafwyd trafodaeth a nodwyd beth a ddysgwyd hyd yn hyn fel a ganlyn:

- Bod cefnogaeth ar gael ond ddim yn gyson dros Wynedd;
- Bod cefnogaeth mudiadau trydydd sector yn ddibynnol ar arian o'r Gronfa Loteri Fawr ac nid arian prif lif;
- Nifer o gynlluniau yn bodoli sydd ychydig yn wahanol;
- Ei fod yn anodd marchnata gwasanaethau a bod unigolion ond yn edrych am wybodaeth pan font eu hangen;
- Un pwynt cyswllt yn bwysig;
- Bod angen rhestr o'r gwasanaethau ar gael ac yn ba ardaloedd;
- Cydweithio yn hynod bwysig;
- Bod angen i Weithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Ysbyty Gwynedd allu cychwyn pecyn gofal o'r newydd ar y penwythnos;
- Bod angen trefniadau mewn lle i hysbysu'r teulu neu ofalwr cartref pan fo unigolyn yn dychwelyd adref yn hwyrach na'r disgwyl.

Yng nghyswllt casglu barn defnyddwyr, awgrymodd yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi y gallai aelodau geisio darganfod un stori'r un gan unigolion oedd wedi bod trwy'r broses ryddhau o'r ysbyty.

Nododd aelod ei fod yn ei rôl fel Pencampwr Gofalwyr wedi derbyn enghreifftiau lle'r oedd unigolion wedi eu rhyddhau o'r ysbyty heb fod cynllun galluogi neu becyn gofal mewn lle.

Adroddwyd bod Age Cymru Gwynedd a Môn yn cynnal fforymau ardal ac y gellir derbyn enghreifftiau gan yr unigolion a oedd yn mynychu. Ychwanegwyd y gellir derbyn enghreifftiau yn ogystal yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Pobl Hŷn.

**PENDERFYNWYD anelu i gynnal cyfarfod nesaf yr Ymchwiliad yn ganol mis Mai ar ôl cyfarfod Cyngor Pobl Hŷn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.20pm a daeth i ben am 3.15pm.